| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 4 Chwefror 2004** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i "Mae Pob Plentyn yn Bwysig"** |

## Diben

Dwyn "Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau", Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Bapur Gwyrdd Llywodraeth y DU "Mae Pob Plentyn yn Bwysig", i sylw'r Pwyllgor.

## Crynodeb / Argymhellion

Mae'r papur hwn yn disgrifio'n fras yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gyflawni dros y 3 blynedd diwethaf o ran plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n disgrifio'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd a chynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cam nesaf ein prosiect i weddnewid bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn eu plith mae'r newidiadau a ddaw yn sgil cyflwyno Mesur Plant Llywodraeth y DU.

Bwriedir cyhoeddi'r Mesur drafft erbyn diwedd Chwefror 2004. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr adroddiad.

## Cefndir

Ers cyhoeddi'r *Fframwaith ar gyfer Partneriaeth* ym mis Tachwedd 2000, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd ati mewn sawl ffordd i wella'r flaenoriaeth a roddir i anghenion plant a phobl ifanc ac i wella polisïau a gwasanaethau. Penodwyd y Comisiynydd Plant, ac mae wedi cyhoeddi dau adroddiad blynyddol. Sefydlwyd *Draig Ffynci*, mudiad cenedlaethol i gynrychioli safbwyntiau plant a phobl ifanc. Mae'r mudiad wedi cwrdd sawl gwaith â Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r adroddiad yn ystyried safbwyntiau'r Comisiynydd annibynnol a'r bobl ifanc eu hunain, ac mae'n

adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i wrando ar yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud ynglyn â'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd o dan bob un o'r saith Nod Craidd sydd wrth wraidd gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Mae hefyd yn nodi yn rhan 4, ar gyfer ymgynghori, gynllun cenedlaethol drafft ar gyfer pennu amcanion polisi a gwerthuso'u heffaith er mwyn gallu dangos yr hyn sy'n cael ei gyflawni. Mae'n cynnig strwythur rhesymegol sy'n cysylltu polisïau ac amcanion, a'r ffordd y cânt eu mesur, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Saith Nod Craidd. Dyma fydd sylfaen strategaeth werthuso i bennu pa mor effeithiol yw'r Fframwaith a bydd yn fodd i'r partneriaethau a'r Cynulliad gydweithio.

## Y Goblygiadau Ariannol

Does dim goblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## Y Themâu Trawsbynciol

Mae sawl asiantaeth a sefydliad statudol a gwirfoddol yn gyfrifol yn lleol am bolisïau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Daw'r rhain ynghyd mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc er mwyn gallu cynllunio ar y cyd ac er mwyn i ddefnyddwyr y gwasanaethau allu cymryd rhan. Anfonir yr adroddiad at gynrychiolwyr y carfanau hynny ac at grwpiau eraill, gan gynnwys pob ysgol gynradd ac uwchradd, y Ddraig Ffynci a fforymau ieuenctid.

Yn Llywodraeth y Cynulliad, Is-Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cabinet sy'n gyfrifol am sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc yn cael blaenoriaeth ddyledus wrth i'r Cabinet a'r Cynulliad lunio polisïau a sicrhau bod mentrau polisi trawsbynciol yn cael eu nodi, a'r rheini'n fentrau cydlynol.

Trefnir bod yr adroddiad yn cael ei anfon at Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc eraill ac at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i'w ystyried.

## Camau Gweithredu'r Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a gwneud sylwadau am y wybodaeth a'r cynigion sydd ynddo.

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt: Chris Burdett, Yr Is-adran Plant a Theuluoedd, ffôn 029 2082 3936**